# WILLIAM, LODWICK (fl. 1689?), ysgrifennwr anterliwdiau

**Enw:** Lodwick William
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** ysgrifennwr anterliwdiau
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Meddygaeth; Perfformio
**Awdur:** Hywel David Emanuel

awdur *Sherlyn Benchwiban*, anterliwt a gyhoeddwyd yn 1802 gan Morgan Rees. Dichon fod nifer o weithiau Lodwick William ym meddiant Morgan Rees, ond hwn ydyw'r unig ddarn yr ymddengys iddo ei gyhoeddi. Ychydig o fanylion sydd i'w cael am fywyd yr awdur, ond yn ei anterliwt ceir cyfeiriadau at bersonau a digwyddiadau sydd yn awgrymu mai tua 1689 y cyfansoddwyd hi. Ar wyneb-ddalen argraffiad 1802 dywedir mai g  r o ' Glanllwchwr, Llandybïe ' oedd yr awdur. Ffermdy ym mhlwyf Llandybïe, Sir Gaerfyrddin, oedd ' Glanllwchwr ' (neu ' Cwmllwchwr'). Ymddengys fod Lodwick William yn feddyg o gryn fri, a dywed traddodiad poblogaidd ei fod hefyd yn ymwneud â dewiniaeth. Yn ôl awdurdodau eraill, fodd bynnag, brodor o'r Bala neu o Geredigion ydoedd.

## Awdur

**Hywel David Emanuel**, (1921 - 1970)

## Ffynonellau


Gomer M. Roberts, *Hanes Plwyf Llandybïe, etc* (Caerdydd 1939), 225-9

G. G. Evans, 'Yr Anterliwd Gymraeg' (traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1938), 51-7, 79

T. J. R. Jones, 'Yr Anterliwt Gymraeg: ei ffynonellau, ei chrefftwaith, a'i gwerth fel arwyddocâd o ddiwylliant y bobl' (traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1939), 90-5


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733865


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/



Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu